# Steilio gwallt naturiol gan ddefnyddio technegau twistio a lapio

## Trosolwg

Mae'r uned hon yn ymwneud â defnyddio amrywiaeth o dechnegau twistio a lapio er mwyn steilio gwallt math Affricanaidd naturiol. Mae angen gradd uchel o fedrusrwydd.

Er mwyn gweithredu'r safon hon, fe fydd angen ichi gynnal a chadw safon uchel o iechyd, diogelwch a hylendid trwy gydol eich gwaith. Fe fydd angen ichi hefyd gynnal gwisg a gwedd bersonol broffesiynol ac arddangos sgiliau cyfathrebu effeithiol.

Dyma brif ddeilliannau'r safon hon:

1. cynnal dulliau diogel ac effeithiol o weithio wrth ddefnyddio technegau twistio a lapio
2. steilio gwallt gan ddefnyddio technegau twistio a lapio

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Cynnal a chadw dulliau diogel ac effeithiol o weithio wrthddefnyddio technegau twistio a lapio**

*
*

1.
cynnal eich cyfrifoldebau iechyd a diogelwch trwy gydol y gwasanaeth
2.
paratoi eich cleient i gyfarfod â gofynion y salon
3.
amddiffyn dillad eich cleient trwy gydol y gwasanaeth
4.
gosod eich cleient i gyfarfod â gofynion y gwasanaeth heb achosi anesmwythdra iddyn nhw
5.
sicrhau bod eich osgo a'ch lleoliad wrth weithio yn lleihau blinder a'r risg o anaf
6.
cadw eich man gwaith yn lân a thaclus trwy gydol y gwasanaeth
7.
defnyddio dulliau gweithio sy'n:

7.1 lleihau gwastraff **cynhyrchion steilio a gorffennu**

7.2 lleihau'r risg o draws-heintiad

7.3 gwneud defnydd effeithiol o'ch amser gwaith

7.4 sicrhau defnydd adnoddau glân

7.5 lleihau'r risg o niwed neu anaf i chi eich hunan ac eraill

7.6 hyrwyddo arferion gweithio amgylcheddol a chynaladwy

1.
sicrhau bod eich hylendid, diogelwch a'ch gwisg a gwedd bersonol yn ateb gofynion diwydiant a sefydliadol derbyniol

2.
dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a chyflenwyr neu wneuthurwyr ynglŷn â defnydd diogel cyfarpar, deunyddiau a chynhyrchion
3.
cyfeirio cleientiaid gyda chyflwr heb ei drin at feddyg teulu neu dricolegydd lle bo angen
4.
gwaredu deunyddiau gwastraff
5.
cwblhau steilio o fewn amser sy'n fasnachol ymarferol

**Steilio gwallt gan ddefnyddio technegau twistio a lapio**

1.
cadarnhau gyda'ch cleient yr olwg a gytunwyd wrth ymgynghori cyn dechrau'r gwasanaeth
2.
paratoi gwallt eich cleient mewn ffordd sy'n addas i'r steil a gytunwyd
3.
bachu gwallt sy ddim yn cael ei steilio er mwyn cadw pob adran yn glir yn y golwg
4.
cadw tensiwn addas a chyson trwy gydol y broses steilio
5.
rheoli a gosod y gwallt yn yr olwg a ddymunir
6.
cyfuno ac addasu'ch **technegau twistio a lapio** mewn modd sy'n cyflawni'r olwg a ddymunir
7.
defnyddio **technegau twistio a lapio, gan** gymryd i ystyriaeth y **ffactorau** sy'n dylanwadu cyflawniad yr olwg a ddymunir
8.
defnyddio **technegau twistio a lapio** mewn modd sy'n osgoi niwed i'r gwallt a chroen y pen
9.
sicrhau bod y torchau gorffenedig o faint unffurf, lle bo'n briodol
10.
sicrhau bod y torchau gorffenedig yn cael eu sychu, lle bo'n briodol
11.

sicrhau bod yr adrannau sy wedi'i lapio yn gadarn, silindraidd ac yn gorchuddio'r pen yn llwyr gyda thensiwn cyson trwyddi draw, lle bo'n berthnasol

12.

sicrhau bod yr olwg orffenedig yn cyfarfod â'r cyfeiriad, y cydbwysedd a'r foliwm a fwriadwyd ac a gytunwyd â'ch cleient

13.

taenu **cynhyrchion steilio a gorffennu** sy'n ategu a gwella'r olwg a ddymunir

14.

sicrhau bod yr olwg orffenedig yn ategu'n nodweddion eich cleient ac yn gwella'u delwedd

15.

cadarnhau bod eich cleient yn fodlon â'r olwg derfynol

16.

rhoi cyngor ac argymhellion i'ch cleient ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*